

Lansiad Children's Laureate Wales 2019

© Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales

# Cydlynydd Creadigol

**Cytundeb parhaol, llawn amser (37 awr yr wythnos)**

I gychwyn cyn gynted â phosib

**Cyflog:** £25,000 pro rata

**Lleoliad:** Mae ein swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Rydym yn gweithio ar sail Hybrid, ac fe fydd pob cais am hyblygrwydd swydd yn cael ei ystyried.

**Dyddiad Cau:** Dydd Mercher 7 Rhagfyr, 5.00 pm **Cyfweliadau:** wythnos yn dechrau 12 Rhagfyr

---

## Ein polisi recriwtio

Wrth wraidd Llenyddiaeth Cymru mae ein tîm o staff, ac rydym yn dibynnu arnynt i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Strategol 2022-225 yn effeithiol. Mae iechyd a llesiant ein tîm

yn bwysig i ni ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal diwylliant iach, cefnogol a chynhwysol, sydd hefyd yn adlewyrchu gwir natur cymunedau cyfoethog ac amrywiol Cymru.

Nod Llenyddiaeth Cymru yw bod yn sefydliad cynhwysol ac rydym wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd. Rydym yn asesu ceisiadau ar gryfder potensial, a byddwn yn gweithredu'n gadarnhaol drwy warantu cyfweliad i bob ymgeisydd sy'n cwrdd â gofynion addasrwydd y rôl, ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector llenyddol. Ein nod yw datblygu llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd sy'n gynrychioliadol ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni'r nod hwnnw yw creu gweithlu amrywiol gyda phrofiadau bywyd amrywiol.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, 2020-23. Os hoffech ymgeisio am y rôl hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

Mae ein fframwaith recriwtio wedi ei ddatblygu fel rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol.

---

## Amdanom ni

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt i gyflawni ein huchelgais dros wireddu sector mwy cyfartal. Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a thrawsnewid bywydau, mae ein blaenoriaethau yn themâu sy'n llifo drwy bob agwedd o'n gwaith, sef Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, Iechyd a Llesiant, a'r Argyfwng Hinsawdd.

Rydym yn elusen, ac yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru ag yn un o wyth Cwmni Cenedlaethol. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog dros Gymru. Mae ein swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd.

## Ynglŷn â'r Rôl

Mae hon yn rôl gyffrous a fydd yn cyflawni prosiectau allweddol gyda'r nod o ysbrydoli a meithrin cenhedlaeth newydd o awduron, cyfranogwyr, a chynulleidfaoedd trwy lenyddiaeth. Bydd y rôl hon yn hanfodol i'n blaenoriaeth barhaus i wella Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb yn y sector, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i helpu ysgolion i gyflwyno gweithdai arloesol ac ysbrydoledig gan awduron o liw o Gymru. Yn ogystal bydd y Cydlynydd Creadigol yn gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Creadigol i gyflwyno cynllun strategaeth addysg newydd a chyffrous i Llenyddiaeth Cymru.

Mae prif gyfrifoldebau'r rôl yn cynnwys datblygu menter Clwb Sgwennu newydd, sydd â'r nod o greu rhagor o gyfleoedd creadigol a grymusol i blant a phobl ifanc ddatblygu eu dychymyg a mireinio eu sgiliau ysgrifennu. Mae un arall o'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys arwain ar gyflawni prosiect Children's Laureate Wales gan ehangu mynediad i lenyddiaeth a chynyddu mwynhad darllen ac ysgrifennu yng nghymunedau Cymru.

Mae gweithio mewn partneriaeth â phobl a sefydliadau i gyflawni ein blaenoriaethau yn allweddol i waith y Cydlynydd Creadigol. Byddwch yn gweithio gyda phartneriaid sefydledig ar draws sectorau amrywiol ac yn adnabod rhai newydd er mwyn cynyddu arbenigedd, gwella gwasanaethau ac ymgysylltu â rhagor o bobl.

Wrth weithio mewn tîm creadigol bychan a deinamig, byddwch yn cefnogi cydweithwyr i ddatblygu a chyflawni prosiectau cyfranogiad newydd, yn unol â blaenoriaethau ein **Cynllun Strategol ar gyfer 2022-25**, sy'n **cynrychioli lleisiau amrywiol**, yn **cefnogi llesiant** ac yn **codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd.**

**Bydd y Rheolwr Creadigol yn:**

- Arwain ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen Children's Laureate Wales, gan fynd â nhw i ysgolion ar draws y wlad a dyfeisio prosiectau partneriaeth i hybu gwaith y llysgennad a chynyddu'r cyfleoedd i gael llwyfan amlwg yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Cefnogi gyda chyflawni menter Clwb Sgwennu newydd a fydd yn creu llwybr dilyniant i blant 8-18 oed i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol.
- Cefnogi gyda chyflawni gwaith Llenyddiaeth Cymru mewn ysgolion, drwy gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac amcanion Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru.
- Cefnogaeth ar ddatblygu Adroddiadau Prosiect allanol i gleientiaid, rhanddeiliaid a chyllidwyr.
- Cefnogi datblygiad Cronfa Ddata Awduron mewnol newydd.
- Cefnogi, ac arwain o bryd i'w gilydd, ar brosiectau gweithgaredd ychwanegol, megis galwadau am fentrau cyfranogol neu hyfforddiant a chyfleoedd cysgodi ar gyfer awduron sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Yn atebol i'r:**

- Rheolwr Creadigol

**Diwrnod/blwyddyn ym mywyd y Cydlynydd Creadigol**

Yn ystod eich diwrnod gwaith byddwch yn aml-dasgio ar amrywiaeth o brosiectau creadigol a chyffrous, gyda ffocws penodol ar adolygu a datblygu ein harlwy i blant a phobl ifanc. Byddwch yn arwain y gwaith o gyflwyno rhaglen Children's Laureate Wales, sydd â'r nod o sicrhau fod rhagor o blant a phobl ifanc yn darganfod gwefr a grym llenyddiaeth. Mae'r gwaith hwn yn gofyn am sgiliau ymchwil, rhwydweithio a chyfathrebu dyfal, yn ogystal â meddwl arloesol er mwyn adnabod bylchau yn ein darpariaeth a dyfeisio atebion creadigol.

Byddwch hefyd yn treulio rhai dyddiau yn y swyddfa yn cydweithio â chydweithwyr, yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio creadigol, yn gwerthuso effaith ein gweithgaredd, ac yn dyfeisio prosiectau newydd ac arloesol, gan gynnwys menter **Clwb Sgwennu** sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol plant. Byddwch yn treulio amser yn cefnogi ac yn rhwydweithio gydag artistiaid, gan gynnwys awduron a hwyluswyr, ac yn helpu ysgolion i gyflwyno gweithdai deinamig gan awduron o liw o Gymru.

Ar rai dyddiau byddwch yn treulio amser yn nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau newydd neu hyfforddiant i gefnogi datblygiad parhaus ein hawduron a'n hwyluswyr. Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymorth bugeiliol a phroffesiynol rheolaidd gyda'ch rheolwr llinell ac yn cyfrannu at ddatblygiad strategol ehangach Llenyddiaeth Cymru a chynllunio prosiectau gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

Rydym yn dîm cyfeillgar a chreadigol sydd yn gweithio yn agos â'n gilydd drwy'r Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Lleolir ein swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Rydym yn gweithio mewn modd hybrid ac mae angen mynychu un o'n swyddfeydd yn rheolaidd, ond gellir cyflawni rhan fawr o'r rôl hon wrth weithio o adref. Byddwn yn darparu'r offer angenrheidiol i chi, gan gynnwys gliniadur ar brydles. Os yw'r disgwyliad i fynychu'r swyddfa yn eich atal rhag ymgeisio am unrhyw reswm, cysylltwch â ni dros e-bost i drafod eich sefyllfa ymhellach.

## Rhinweddau pwysig ar gyfer y rôl

Rydym yn chwilio am rywun sydd â:

- Profiad o, a gwybodaeth am, weithio gyda phlant a phobl ifanc, a dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd i Gymru;
- Profiad o reoli prosiectau;
- Sgiliau cryf o ran cynnal perthnasau gyda rhanddeiliaid, megis cydweithio â chyrff allanol a sefydliadau partner i drefnu prosiectau a digwyddiadau;
- Y sgil i feddwl yn ddadansoddol a myfyrio ar ddata;
- Diddordeb ac ymrwymiad i fynd i'r afael â chynrychiolaeth a chydraddoldeb trwy brosiectau gweithgaredd cyffrous;
- Sgiliau cyfathrebu cryf, sensitif a chadarnhaol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Fel sefydliad dwyieithog, ble mae mwyafrif ein staff yn siarad Cymraeg, mae agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar unrhyw lefel o ruglder, ac rydym yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif ethnig.
- Rwy'n anabl neu yn dioddef o salwch hir dymor.
- Rwy'n dod o gefndir incwm isel.

Gwarantir cyfweliad ar gyfer y swydd hon i ymgeiswyr sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau hyn ac sy'n cwrdd â gofynion addasrwydd y rôl. Rydym yn angerddol dros fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thangynrychiolaeth yn y celfyddydau a byddwn yn blaenoriaethu profiad byw uwchlaw profiad gwaith.

---

## Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch y swydd ddisgrifiad uchod a'r rhestr o rinweddau** yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch **Gynllun Strategol 2022-25 Llenyddiaeth Cymru** yma ac edrychwch ar ein gwefan.

2. **Ysgrifennwch lythyr cais* neu greu cais fideo*** yn esbonio pam eich bod â diddordeb yn y rôl, a sut yr ydych yn addas ar ei chyfer. (e.e. soniwch am eich profiadau, a pha elfennau penodol sy'n eich diddori am y swydd). Bydd ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau fideo yn cael eu hasesu yn gyfartal.

   *Uchafswm o 2 dudalen A4, neu fideo 5-munud.

3. Gyrrwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **5.00 pm ar ddydd Mercher 7 Rhagfyr 2022.**

- Eich llythyr neu gais fideo;
- Eich **CV** a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau (ar gael yma).

**Uchafswm o 2 dudalen A4

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweld dros Teams/Zoom yn ystod w**/d 12 Rhagfyr 2022**. Bydd tri aelod o staff Llenyddiaeth Cymru ar y panel cyfweld.

Er mai cyfweliad ffurfiol fydd hwn, byddwn yn sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses ymgeisio. Os yw'r broses gyfweld yn peri gofid neu bryder i chi, rhowch wybod i'r Cyfarwyddwr Artistig, Leusa Llewelyn, o flaen llaw fel y gallwn drefnu sgwrs anffurfiol neu sgwrs dros y ffôn/fideo cyn y cyfweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â ni o flaen llaw i drafod y swydd neu i holi am fwy o wybodaeth. I siarad â Leusa yn uniongyrchol neu i drefnu galwad yn ôl, anfonwch e-bost ati ar leusa@llenyddiaethcymru.org .

Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr gyda chanlyniad y cyfweliadau erbyn 19 Rhagfyr 2022.

---

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*